Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynghorau cymuned a thref yn Nghymru

## Adroddiad am y pethau y daethon ni i wybod amdanyn nhw



Mae hwn yn fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Iechyd Democrataidd Cynghorau Cymuned a Thref**’. Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgrifennu gan **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd** ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma




Mae'r ddogfen yma'n hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **print glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar dudalen 40.


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, bydd hyn yn meddwl **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd**.

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50873,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Wybodaeth cysylltwch:




I gael mwy o wybodaeth ebost:
**easyread@ldw.org.uk**




Ffôn: 029 2068 1160

Cafodd y testun Hawdd ei Ddeall ei baratoi gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** a chafodd y ddogfen ei chynllunio gan **Lywodraeth Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fesiwn hawdd ei ddeall yma **Cyswllt - Anabledd Dysgu Cymru**.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r adroddiad yma | 5 |
| Y pethau wnaethon ni | 9 |
| Y pethau y daethon ni i wybod | 12 |
| Y pethau ddywedodd pobl | 17 |
| Beth sy'n digwydd nesaf | 31 |
| Geiriau anodd | 40 |

# Ynglŷn â'r adroddiad yma




Cafodd yr adroddiad yma ei ysgrifennu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd.

Cafodd y **Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd** ei gychwyn yn Ebrill 2023 er mwyn:




- Dod i wybod pam nad yw pobl yn cymryd rhan mewn **cynghorau cymuned a thref** yng Nghymru.
- Awgrymu ffyrdd o wneud pobl yn ymwybodol o **gynghorau cymuned a thref**.
- Cynnwys mwy o bobl.



- Cael mwy o bobl **amrywiol** yn sefyll am eu hethol i ddod yn gynghorwyr.

Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, mae pobl yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wneud gwahanol bethau.

Mae'r adroddiad yma am:

- y pethau wnaethon ni
- y pethau y daethon ni i wybod
- a'r pethau rydyn ni'n meddwl sydd angen eu gwneud i wella pethau.



## Ynglŷn â chynghorau cymuned a thref

Mae **cynghorau cymuned a thref** yn rhan o lywodraeth leol. Nhw sydd agosaf at ein cymunedau.



Mae ganddyn nhw **gynghorwyr** sy'n cynrychioli barn pobl yn eu cymuned.

Mae 875 cymuned yng Nghymru. Mae gan 732 ohonyn nhw **gyngor cymuned neu gyngor tref**.



Mae etholiadau ar gyfer yr holl gynghorau yn digwydd bob 5 mlynedd.

Mae **cynghorau cymuned a thref** yn gweithio'n agos gyda'u **prif gyngor.** Mae'r prif gyngor yn cael ei alw'n **awdurdod lleol** hefyd.

Mae prif gynghorau yn paratoi gwasanaethau ar gyfer eu hardal, fel:



- Addysg
- Gofal cymdeithasol
- Tai



- Ailgylchu
- Gosod treth y cyngor a'i gasglu.

Mae gan prif gynghorau fwy o rymoedd a dyletswyddau na **chynghorau cymuned a thref**.

# Y pethau wnaethon ni



Edrychon ni ar adroddiadau, ymchwil ac arolygon.




Cynhaliwyd 15 o grwpiau ffocws i ddod i wybod mwy.


Siaradon ni â:





- Phobl yn y gymuned
- Pobl ifainc
- Cynghorau cymuned a thref
- Arbenigwyr
- Pleidiau gwleidyddol

• Grwpiau o'r **trydydd sectors**.




Mae'r **trydydd sector** yn cynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol, a sefydliadau nad ydyn nhw'n gwneud elw. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r llywodraeth na busnesau.

Canolbwyntion ni ar bum pwynt:



1. Beth mae pobl yn ei feddwl o **gynghorau cymuned a thref**.

2. Problemau rhwng aelodau o'r cyngor a sut mae'n effeithio ar y gymuned.

3. Sut mae **cynghorau cymuned a thref** yn cael eu cychwyn.



4. Ydy **cynghorau** yn rhannu digon o wybodaeth â'u cymunedau.







5. Ydy cymunedau yn cymryd rhan mewn **cynghorau cymuned a thref**.

# Y pethau y daethon ni i wybod

## Beth mae pobl yn feddwl o gynghorau cymuned a thref



Yn aml, nid oedd pobl yn medru ymddiried yn eu cynghorau lleol oherwydd profiad gwael.

Nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth mae cynghorau yn ei wneud, yn enwedig pobl ifainc.




Roedd llawer o gynghorwyr yn hŷn, ac yn aml wedi ymddeol. Roedd pobl yn meddwl bod cynghorau wedi dyddio a ddim yn ddigon **amrywiol**.

## Problemau rhwng aelodau'r cyngor. A sut mae hyn yn effeithio ar y gymuned



Doedd cynghorwyr newydd ddim yn cytuno â hen gynghorwyr.

Doedd cynghorwyr â barn wahanol ddim yn cael eu cefnogi.





Doedd llawer o **gynghorau cymuned a thref** ddim yn hoffi newid. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd i bobl newydd ymuno.

## Sut mae cynghorau cymuned a thref yn cael eu cychwyn




Yn aml nid oedd **cynghorau cymuned a thref** yn delio â materion cymunedol pwysig yn ddigon da.

Mae'n bwysig cefnogi pobl i gymryd rhan mewn penderfyniadau.




Roedd rhai pobl yn gweld rheolau'r cyngor yn anodd eu deall.



Roedd pobl yn gweld yr hen systemau, y cyfarfodydd a'r cofnodion yn ddryslyd.

Mae **cynghorau cymuned a thref** yn dal i weithio mewn ffyrdd sy'n ffurfiol ac anodd. Mae hyn yn arafu penderfyniadau.

## Ydy cynghorau yn rhannu digon o wybodaeth â’u cymunedau



Nid oedd **cynghorau cymuned a thref** yn medru cyrraedd llawer o bobl. Oherwydd eu bod yn defnyddio hen ddulliau fel hysbysfyrddau.

Nid oedd **cynghorau cymuned a thref** yn gofyn yn aml am adborth neu syniadau gan eu cymunedau.



Yn aml roedd pobl ifainc yn cael eu gadael allan pan oedden nhw’n gwneud penderfyniadau.

Yn aml roedd yn well gan **gynghorau cymuned a thref** benodi cynghorwyr heb etholiadau. Roedd hyn yn cael ei weld yn annheg.

## Ydy cymunedau yn cymryd rhan mewn cynghorau cymuned a thref



Mae peth ymchwil yn dangos y basai'n well petai'n rhaid i gynghorau gynnwys pobl.

Nid oedd llawer o bobl yn cymryd rhan yng ngwaith **cynghorau cymuned a thref** oherwydd:



- nad oedden nhw'n gwybod eu bod yn gallu cymryd rhan

- neu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan weithiau.




Edrychon ni ar wahanol ffyrdd o gynnwys pobl. Er enghraifft, grwpiau cymunedol a phleidleisio.

Ond roedd rhai yn poeni na fyddai hyn yn helpu i gynnwys pawb yn y gymuned.

# Y pethau ddywedodd pobl

## Pobl yn y gymuned



Nid ydy llawer o bobl yn deall beth mae **cynghorau** yn ei wneud.

Roedden nhw'n ei theimlo hi'n anodd cymryd rhan oherwydd bod cynghorau yn aml yn eu hanwybyddu nhw. Neu'n cymryd amser i'w hateb.

Roedd llawer o bobl yn dweud nad oedd arnyn nhw eisiau sefyll am etholiadau. Dywedson nhw bethau fel:

- Doedd hi ddim yn hawdd i bawb gymryd rhan.




- Roedd etholiadau yn rhy anodd i bobl gymryd rhan ynddyn nhw.




- Mae arnon ni angen mwy o amser ac arian i redeg etholiadau.

- Ran amlaf roedd cynghorwyr yn cael eu dewis heb etholiadau.

- Nid oedd cynghorau yn croesawu pobl newydd.


Roedd pobl yn ddryslyd ynghylch **prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref**.



Nid oedd gan y rhan fwyaf o bobl ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cynghorau.

Roedd yn well gan lawer o bobl wirfoddoli trwy grwpiau eraill.

## Pobl ifainc




Yn aml nid oedd pobl ifainc yn gwybod llawer am gynghorau. Roedden nhw'n ddryslyd am y gwahaniaeth rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref.

Roedden nhw'n llai tebygol o siarad â chynghorwyr neu fynd i gyfarfodydd. Roedden nhw'n hoffi cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol ond doedd arnyn nhw ddim eisiau rolau yn y cyngor.




Doedd llawer o bobl ifainc ddim yn gwybod sut i gysylltu â chynghorau lleol neu gynghorwyr.

Roedd ganddyn nhw wahanol resymau dros beidio â bod eisiau bod yn gynghorydd. Er enghraifft:



- dim diddordeb
- dim digon o amser
- ddim yn gwybod digon am y rôl



- doedd dim digon o **amrywiaeth**.

Roedd llawer yn teimlo nad oedd **cynghorau cymuned a thref** yn delio â phethau oedd yn bwysig i fywydau pobl ifainc.

Mae ar bobl ifainc eisiau i gynghorau:

- Greu mwy o gyfleoedd.

- Gwneud prosiectau y gall pobl ifainc gymryd rhan ynddyn nhw.



- Hyrwyddo iechyd a lles. A chynnwys pawb.

- Cael rhywun i gynrychioli pobl ifainc.

- Gwella'r ffordd o rannu gwybodaeth.



- Paratoi gwefannau mwy clir.

- Cael barn pobl ifainc ynglŷn â gwella cludiant, diogelwch, a'r amgylchedd.




- Talu pobl ifainc am gymryd rhan.



Mae pobl ifainc yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan oherwydd yn aml dydyn nhw ddim yn cael dweud eu barn am benderfyniadau neu brosiectau'r cyngor.

**Grwpiau'r trydydd sector**

Roedd llawer o grwpiau o'r **trydydd sector** yn gwybod am **gynghorau cymuned a thref**.

Y prif resymau dros beidio â bod eisiau bod yn gynghorydd oedd:



- Gormod o waith.
- Gorfod bod â gofal am bethau.
- Dim digon o dâl.

Roedden nhw'n teimlo y gallai'r **trydydd sector** a'r cynghorau weithio'n well gyda'i gilydd.



Trwy wella'r ffordd y mae'r **trydydd sector** a'r cynghorau yn gweithio gyda'i gilydd, roedd pobl yn dweud y bydden ni'n:

- Fwy clir ac agored.
- Ymuno â'n gilydd i benderfynu beth sy'n bwysig wrth gefnogi a hyfforddi.



- Cael pawb yn y gymuned i gymryd rhan.
- Dysgu oddi wrth ein gilydd a dod o hyd i'r ffyrdd gorau o weithio.

Siaradodd pobl am yr heriau y byddai grwpiau'r trydydd sector yn eu hwynebu:



- Rhannu gwybodaeth.
- Methu deall a bod yn ymwybodol.
- Llai o adnoddau.
- Gwahanol ffyrdd o weithio.
- Ofn colli rheolaeth neu awdurdod.





- Dim digon o sgiliau a gwybodaeth i lenwi ffurflenni cais am nawdd.
- Proses etholiadau yn anodd.
- Ofn cael eu **cam-drin** drwy'r cyfryngau cymdeithasol.




Mae rhywun yn eich **cam-drin** pan fyddan nhw'n dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n wael.

- Mwy o waith.

- Cystadlu am gael yr un nawdd.




- Gwahaniaeth barn.

Roedd grwpiau'r **trydydd sector** yn teimlo bod arnon ni angen:

- Gwybod mwy am **gynghorau cymuned a thref**.




- Cael mwy o brosiectau a rhannu gwybodaeth.

- Cael mwy o enghreifftiau o weithio ar y cyd.




- Mwy o **amrywiaeth** mewn **cynghorau cymuned a thref**.
- Ffyrdd newydd o weithio i gynnwys pawb.
- Rhannu cynlluniau ynglŷn â lles.
- Cael cyllideb ar gyfer gweithio gyda'n gilydd.

## Cynghorau cymuned a thref a phrif gynghorau

Siaradodd cynghorwyr a swyddogion am bethau fel:




- Cael eu **cam-drin** gan gynghorwyr eraill neu bobl. Yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Ymddygiad gwael gan aelodau o'r cyngor neu swyddogion.

- Mwy o waith.

- Sut mae’n teimlo i weithio o fewn cynghorau cymuned a thref.



- Dim digon o dâl.

- Gorfod bod â gofal am bethau.

Roedd cynghorau cymuned a thref yn ei chael hi’n anodd gweithio gyda **phrif gynghorau (awdurdodau lleol)**. Roedden nhw’n teimlo:

- Nad ydy **prif gynghorau** ddim yn ystyried barn **cynghorau cymunedol**.



- Nad ydyn nhw’n ymateb i’w hymholiadau mewn pryd.

Roedd **prif gynghorau** yn rhannu barn debyg. Doedd arnyn nhw ddim eisiau bod yn gynghorwyr oherwydd:

- Bod arnyn nhw ofn cael eu **cam-drin**.
- Bod gormod o waith.



- Doedd ganddyn nhw ddim diddordeb.
- Roedd gwahanol batrwm gwaith.

Roedd pobl yn teimlo ei bod hi'n bwysig cael:

- Storïau da yn y cyfryngau am waith y cyngor.




- Cefnogaeth ar gyfer cynghorwyr newydd. Ac ar gyfer pobl sydd am fod yn gynghorwyr.


- Caniatâd i fod yn absennol o’r gwaith i’w helpu i wneud gwaith cynghorwyr.

- Awdurdodau lleol yn gweld gwerth **cynghorau cymuned**.



Roedd **cam-drin** yn digwydd yn bennaf ar y cyfryngau cymdeithasol. Nid oedd gan gynghorau ddigon o adnoddau i helpu i ddelio â **cham-drin** ar y cyfryngau cymdeithasol.

Byddai cwynion yn aml yn mynd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn lle ateb y broblem yn lleol.




Dewisodd rai cynghorwyr beidio â mynd i hyfforddiant Côd Ymddygiad.

Roedd gormod o amser yn cael ei dreulio ar gyfarfodydd, ysgrifennu adroddiadau, pwyllgorau a digwyddiadau.


Doedd pob cynghorydd ddim yn gweithio i wneud i brosiectau ddigwydd. Dim ond y statws oedd yn bwysig i rai.

Roedd ar rai cynghorwyr eisiau gadael eu rôl oherwydd:



- Dim llawer o dâl neu ddim tâl.

- Doedd y cyngor ddim yn gweithio'n ddigon da.




- Gormod o waith papur.

- Ymddygiad gwael yn dal i fynd ymlaen gan nad oedd cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif.

- Cynghorwyr eraill yn bod yn dawel neu ddim yn poeni am y problemau.

# Beth sy'n digwydd nesaf




Roedden ni'n barod yn gwybod am rai materion yn yr adroddiad hwn.

Y nod ydy adeiladu hyder mewn cynghorau ar draws Cymru.

Mae **dau ddewis** ar gyfer gwella **cynghorau cymuned a thref**.



Efallai y bydd yna angen peth ymchwil ychwanegol ar gyfer y ddau ddewis. Bydd yr ymchwil hwn yn ddefnyddiol pa bynnag un fydd yn cael ei ddewis.

Mae'r dewis cyntaf yn edrych ar ffyrdd o ailadeiladu **cynghorau cymuned a thref**.

Mae'r ail ddewis yn awgrymu **newid y ffordd y mae cynghorau cymuned a thref** yn gweithio. Mae'n dweud efallai bod y ffordd bresennol wedi dyddio a bod yna angen system newydd.

Rydyn ni'n meddwl y dylai Gweinidogion Cymru ddewis un o'r ddau yma.




**Dewis 1**

**Ailadeiladu cynghorau cymuned a thref**



Mae'r dewis hwn yn canolbwyntio ar helpu cymunedau a chynghorau i weithio'n well gyda'i gilydd.
Dan y dewis hwn mae arnon ni eisiau:

## Creu ymwybyddiaeth

Mae arnon ni angen:



- Hyfforddi cynghorwyr i gysylltu ag ysgolion, grwpiau ieuenctid, a chymunedau.



- Gweithio gydag athrawon i wneud gwersi ynglŷn â **chynghorau cymuned a thref**.

- Cael cynghorau mewn ardaloedd lle does yr un ar gael.

- Rhannu enghreifftiau da o **gynghorau cymuned a thref** i ysbrydoli eraill.


## Hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth



Byddai hyn yn meddwl:

- Casglu a rhannu gwybodaeth am gynghorau a chymunedau.

- Cynnig arweiniad ynglŷn a chael mwy o gynghorwyr **amrywiol**.




- Gwneud adroddiad am **amrywiaeth** bob dwy flynedd.

- Gobeithio cael seddau cadw ac arian ar gyfer pobl ifainc a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth dda ar gynghorau.

- Gweithio gyda mudiadau sy'n hyrwyddo **amrywiaeth** mewn gwleidyddiaeth.


## Gwella sgiliau

Helpu cynghorau i wella eu sgiliau. A rhoi pethau'n iawn pan fydd problem. Mae hyn yn gallu cael ei wneud trwy:




- Gynnig hyfforddiant.
- Edrych ar ffyrdd newydd o weithio.
- Gwneud yn siŵr bod cynghorau'n gweithio yn y ffordd iawn.

## Gwneud etholiadau'n deg




Gwneud costau etholiad yn glir ac yn deg.

Helpu cynghorau i annog pobl
i gymryd rhan mewn etholiadau.

**Newid y ffordd rydyn ni'n gweithio**

Mae llawer o adroddiadau wedi cael eu gwneud am ymddygiad gwael o fewn **cynghorau cymuned a thref**. Ond dim ond ychydig o gwynion ffurfiol sydd wedi bod.

Mae arnon ni eisiau:




- Edrych ar y broses gwyno ac awgrymu newidiadau i wella'r system.

- Gweithio gyda mudiadau i adolygu a gwella'r ffordd y mae cynghorau yn delio ag ymddygiad gwael.



- Gweithio gydag Archwilio Cymru i wella'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwirio.

- Adolygu polisïau.

- Gwneud rôl **cynghorau cymuned a thref** yn gliriach. A'r ffordd maen nhw'n gweithio gyda'r **prif gynghorau**.




## Dewis 2

## Newid y ffordd y mae cynghorau cymuned a thref yn gweithio

Rydyn ni'n awgrymu bod grŵp arbennig yn cael ei wneud gan Weinidog. Gall y grŵp hwn feddwl sut i newid y ffordd y mae **cynghorau cymuned a thref** yn gweithio.

Gall y grŵp feddwl am:




- Adolygu nod a rôl **cynghorau cymuned a thref**.

- Ei gwneud hi'n glir sut y mae cynghorau cymuned, prif gynghorau, a'r **trydydd sector** yn gweithio gyda'i gilydd.

- Newid y ffordd y mae pobl yn cael eu hethol. Neu eu dewis i fod yn rhan o'r cynghorau hyn.

- Gwneud yn siŵr bod cynghorau yn **amrywiol**.






- Gwneud yn siŵr bod digon o arian a staff.


- Edrych pa mor dda mae cynghorau yn gwneud pethau.

Siaradon ni am ddefnyddio rhai camau gweithredu o **Dewis 1** ynghyd â **Dewis 2**.

Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys:




- Adolygu tâl cynghorwyr ac arian ar gyfer grwpiau sydd â llai o gyfleoedd.
- Cychwyn prosiect dros dro i ddod o hyd i ffyrdd newydd i swyddogion weithio.
- Adolygu maint cynghorau.
- Edrych sut mae cynghorau yn delio â chwynion.
- Gweithio gydag Archwilio Cymru i wella'r ffordd mae pethau'n cael eu gwirio.




- Gweithio gyda mudiadau i adolygu a gwella'r ffordd y mae cynghorau yn delio ag ymddygiad gwael.

Bydd y camau gweithredu hyn yn rhoi man cychwyn cryf ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

# Geiriau anodd

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, mae pobl yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu maen nhw'n dda am wneud gwahanol bethau.

## Cam-drin

Mae rhywun yn eich cam-drin pan fyddan nhw'n dweud neu'n gwneud rhywbeth i'ch brifo neu wneud i chi deimlo'n wael.

## Trydydd sector

Mae'r trydydd sector yn cynnwys elusennau, grwpiau gwirfoddol, a sefydliadau nad ydyn nhw'n gwneud elw. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r llywodraeth na busnesau.